Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

## Ffurflen Wybodaeth DISGYBL

**Creu asesiad diagnostig o lythrennedd yn y Gymraeg i ddysgwyr 11.0-16.11 oed**

Annwyl Ddisgybl,

Hoffem dy wahodd i gymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil. Cyn i ti benderfynu os wyt ti am gymryd rhan yn y prosiect ai peidio, mae'n bwysig dy fod ti'n deall pam ein bod ni'n cynnal yr astudiaeth a beth fydd angen i ti wneud. Bydd y wybodaeth isod, ac ar y ddolen yma https://youtu.be/T6O063yHCS4
o gymorth i ti.

**Beth yw pwrpas yr astudiaeth?**
Pwrpas yr astudiaeth yw creu profion newydd fydd yn helpu mesur darllen, sillafu ac ysgrifennu yn Gymraeg.

**Pam gofyn i fi gymryd rhan?**
Mae dy ysgol wedi cytuno i gymryd rhan yn yr astudiaeth ac wedi gofyn i ti fod yn rhan hefyd. Mae'r astudiaeth yn edrych ar sut mae'r profion yma yn asesu sgiliau darllen ac ysgrifennu pobl ifanc.

**Oes rhaid i fi gymryd rhan?**
Mae dy athro/athrawes wedi gofyn i ti gymryd rhan yn yr astudiaeth.
Mae cymryd rhan yn y prosiect hwn yn gwbl wirfoddol. Os dwyt ti ddim eisiau bod yn rhan o'r gwaith ymchwil, yna dweda wrth dy athro. Mae hawl gyda ti i dynnu'n ôl o'r gwaith ymchwil. Gallet ti neu dy athro ebostio ESSHethics@cardiffmet.ac.uk i ddweud dy fod ti am dynnu'n ôl o'r prosiect.
Os wyt ti'n tynnu'n ôl cyn i ni gasglu data neu yn ystod y cyfnod casglu data, byddwn yn dileu unrhyw ddata wnest ti ddarparu. Os wyt ti'n tynnu'n ôl ar ôl hyn, yna byddwn yn tynnu unrhyw ddata lle y mae modd dy adnabod.

**Beth fydd cymryd rhan yn ei olygu?**
Mae 8 ran i'r prawf

- Prawf sillafu
- Prawf cyflymdra ysgrifennu
- Prawf cywirdeb darllen

- Prawf cyflymdra darllen
- Prawf adnabod odl
- Prawf adnabod cyflythreniad
- Prawf hepgor seiniau
- Prawf enwi cyflym

Byddi di'n gwneud y profion gydag athro yn yr ysgol. Bydd pob rhan o'r prawf yn cymryd rhwng 2-8 munud, ar wahân i'r prawf cyflymdra ysgrifennu fydd yn cymryd 10 munud. Bydd dy athro yn nodi marciau wrth i ti wneud y profion.

Bydd angen i ni gasglu gwybodaeth am iaith/ieithoedd y cartref, felly bydd dy athro yn gofyn i ti lenwi holiadur byr.

**Beth os yw'r profion yn datgelu rhywbeth amdana i nad oeddwn i'n ei wybod?**
Mae'r profion am fesur pedwar peth:

- Pa mor gyflym mae disgyblion yn ysgrifennu neu yn darllen yn Gymraeg o gymharu â disgyblion eraill o'r un oedran
- Unrhyw batrymau i'r mathau o gamgymeriadau mae disgyblion yn eu gwneud wrth ysgrifennu yn Gymraeg
- Pa mor dda gall ddisgybl sillafu neu ddarllen yn Gymraeg o gymharu â disgyblion eraill o'r un oedran
- Unrhyw sgiliau sylfaenol nad ydynt wedi datblygu cystal â disgyblion eraill o'r un oedran, ac a fyddai'n effeithio ar ddatblygiad llythrennedd y disgybl.

Os yw'n ymddangos wrth farcio'r profion fod gennyt anhawster gyda llythrennedd nad yw'r ysgol wedi'i nodi eisoes byddwn yn siarad â Chydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd y Cydlynydd ADY yn gallu siarad gyda ti a dy rieni.

**Sut bydd y wybodaeth a gesglir amdana i yn cael ei diogelu?**

Bydd dy ddata yn cael ei gadw'n gyfrinachol drwy gydol yr astudiaeth. Ni fydd dy enw na enw'r ysgol ar unrhyw adroddiadau yn yr astudiaeth. Byddwn yn cadw'r holl ddata ar gyfrif diogel, One Drive, Met Caerdydd yn ystod y prosiect yn ystod y prosiect ac am ddeg mlynedd wedi hynny. Yna, bydd y data yn cael ei ddileu.

**Pwy sy'n rhan o'r prosiect?**

Marjorie Thomas,  Dr Rhiannon Packer, Dr. Katharine Young. Mae'r prosiect wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru. Fe fydd yr ysgol yn derbyn arian am anfon y data yn  ôl at yr ymchwilwyr, a'r tîm ymchwil fydd yn rheoli'r taliadau unigol i ysgolion.

**Os hoffet ti siarad â rhywun ar ôl cymryd rhan yn y gwaith hwn, gall y canlynol fod o gymorth:**

Meic (llinell gymorth gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth i blant a phobl ifanc) 080 880 23456 / 07943 114 449

British Dyslexia Association: https://www.bdadyslexia.org.uk/dyslexia

NHS: https://www.nhs.uk/conditions/dyslexia/

**Os oes rhagor o gwestiynau gennyt am y prosiect siarada gyda dy athro neu os hoffet gysylltu â ni am unrhyw reswm, mae ein cyfeiriadau ebost isod:**
Marjorie Thomas: mthomas@cardiffmet.ac.uk
Dr Rhiannon Packer: rajpacker@cardiffmet.ac.uk

Diolch yn fawr iawn am dy gefnogaeth,

Marjorie Thomas a Rhiannon Packer